# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2004

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

**10 Hydref 2002**

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2004

## Cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

***Cyflwyniad***

1. O dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'm hincwm a'm treuliau i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2004 a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r memorandwm ar fy mlaenraglen arfaethedig o waith gwerth am arian, y byddaf yn ei drafod gyda'r Pwyllgor ar 24 Hydref 2002.

2. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ac yn unol ag Adran 92(1) Deddf 1998, rwyf wedi trefnu i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i ategu fy swyddogaethau statudol. Rwyf hefyd yn cyflogi Mr Lew Hughes i'm helpu i oruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, i gyflwyno fy rhaglen waith, ansawdd fy allgynhyrchion, ac wrth gyflawni fy swyddogaethau.

3. Yn yr amcangyfrif hwn, rwyf wedi categoreiddio cost y gwasanaethau hyn o dan y penawdau canlynol:

   - archwilio cyfrifon;
   - archwiliad gwerth am arian;
   - gwaith archwilio arall; a
   - gwasanaethau proffesiynol, technegol a gwasanaethau eraill.

Ceir esboniad manylach o bob categori yn y nodiadau esboniadol yn dilyn yr Amcangyfrif.

**Cefnogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Archwiliad ariannol**

4. Prif amcan fy ngwaith archwilio ariannol yw rhoi sicrwydd, gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r Cynulliad ar gyfrifo a defnyddio adnoddau cyhoeddus yn briodol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn i'r Cynulliad, anelaf at helpu cyrff cyhoeddus i wella eu rheolaeth ariannol.

5. Mae fy ngwaith archwilio ariannol yn cyfrannu at yr amcanion hyn mewn tair ffordd:

- Drwy roi sicrwydd i'r Cynulliad bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, eu bod wedi eu paratoi yn unol â gofynion cyfrifo perthnasol a gofynion

eraill, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio ymhob ystyr berthnasol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;

- Drwy nodi, asesu ac archwilio risgiau i briodoldeb a rheolaeth ariannol a chyflwyno adroddiadau ar wendidau mawr; a
- Drwy roi cyngor adeiladol i gyrff archwiliedig i'w helpu i wella eu rheolaeth gorfforaethol, eu rheolaeth ariannol, a'u dull o reoli a chyflwyno adroddiadau.

6. Yn ystod 2003-04, byddaf yn rhoi barn archwilio ar 33 o gyfrifon yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2002-03 (gweler Atodiad A). Er mwyn ategu'r farn hon, bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal ei gwaith yn unol â Safonau Archwilio'r DU a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Os bydd mater rheoleidd-dra, priodoldeb neu reolaeth ariannol yn codi yn ystod y gwaith hwn y dylid tynnu sylw'r Cynulliad ato, yn fy marn i, byddaf yn ategu'r farn archwilio gydag adroddiad esboniadol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bwriadaf gyhoeddi adroddiad hefyd ar Gyllid GIG Cymru ac "Adroddiad Cyffredinol" ar bynciau amserol sy'n deillio o'm gwaith archwilio ariannol.

7. Yn ogystal â'r farn archwilio a'r adroddiadau cyhoeddedig, byddaf, yn unol ag arfer gorau, yn parhau i roi cyngor rheoli i gyrff cyhoeddus ar feysydd lle y gellid gwella eu rheolaeth ariannol, eu trefniadau cyfrifo a rheolaeth gorfforaethol. Yn ôl y drefn, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio neu bwyllgorau rheoli corfforaethol y cyrff hynny i drafod y gwaith archwilio a'n canfyddiadau.

8. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i ddatblygu ei methodoleg archwilio ariannol fel ei bod yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf o fewn y proffesiwn cyfrifo a'r proffesiwn archwilio, er mwyn canolbwyntio ar feysydd allweddol lle ceir risg archwilio ac i wneud y defnydd gorau o ddatblygiadau technolegol. Mae ei gwaith yn agored i ystod o fesurau i sicrhau y safonau uchaf posibl gan gynnwys adolygiadau 'chwilboeth' o archwiliadau parhaus o gyfrifon proffil uchel gan gyfarwyddwyr annibynnol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac adolygiadau 'oer' o archwiliadau wedi eu cwblhau. Yn fwy diweddar, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi gofyn hefyd i Uned Monitro ar y Cyd y proffesiwn archwilio gynnal arolygiadau annibynnol rheolaidd o'i gweithgareddau archwilio ariannol. Mae arolygiadau o'r fath yn gosod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar yr un lefel â chwmnïau cyfrifo yn y sector preifat lle mae arolygiadau o'r fath yn orfodol.

**Cefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol – Gwaith gwerth am arian**

9. Prif amcan y gwaith gwerth am arian yw rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r Cynulliad ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wnaed o arian cyhoeddus. Mae fy ngwaith gwerth am arian yn cwmpasu'r ystod lawn o weithgareddau a gyflawnir gan y Cynulliad, ei gyrff noddedig a sefydliadau cyhoeddus eraill fel y GIG a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Yn ogystal â gwell atebolrwydd drwy gyhoeddi canlyniadau'r ymchwiliadau hyn, anelaf at annog cyrff archwiliedig i wella eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys nodi gwersi arfer da tra'n darparu dull

craffu annibynnol a rhoi sicrwydd y caiff busnes cyhoeddus ei gynnal mewn ffordd briodol ac annog cyrff i reoli'n dda y modd y cymerant risgiau.

10. Fy nod yw datblygu rhaglen gytbwys o astudiaethau gwerth am arian, gyda chymysgedd da o feysydd pwnc a mathau o archwiliad. Rhoddaf bwys mawr ar fy rhaglenni gan gynnwys ystod o bynciau wedi eu cynllunio'n benodol i nodi'r cyfleoedd i arbed arian. Yn y tair blynedd ers i'm swydd gael ei sefydlu ym 1999, mae fy ngwaith wedi nodi dros £40 miliwn o arbedion posibl yn ogystal â nifer fawr o welliannau anfesuradwy i systemau a'r modd y cyflwynir gwasanaethau cyhoeddus.

11. O dan Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i mi ystyried barn y Pwyllgor Archwilio wrth gynllunio fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian. Ar wahân i'r gofyniad statudol hwn, credaf ei fod yn ddefnyddiol iawn bob amser i glywed barn y Pwyllgor cyn cwblhau fy rhaglen, gan fod fy adroddiadau yn sail i'w raglen waith ei hun. Nodir fy mlaenraglen ddrafft o waith gwerth am arian, i'w thrafod gyda'r Pwyllgor ar 24 Hydref, mewn memorandwm ar wahân.

**Gwasanaethau eraill**

12. Yn ogystal â'r gwaith archwilio ariannol a gwerth am arian statudol, anelaf at darparu ystod o wasanaethau ategol i'r Cynulliad, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a threthdalwyr. Bydd gwasanaethau o'r fath yn cynnwys:

(i) Rhoi briff i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar fy adroddiadau a'm gwaith cyn sesiynau tystiolaeth, gan roi cyngor i'r Pwyllgor ar ddrafftio ei adroddiadau ei hun, a chymryd camau dilynol mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor ac ymateb y Cabinet;

(ii) Ymgymryd â gwaith er mwyn ymateb i ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a Senedd Ewrop, a'r cyhoedd. Mae gohebiaeth o'r fath yn gweithredu weithiau fel man cychwyn ar gyfer ymchwiliad archwilio trwyadl ac adroddiad i'r Cynulliad. Er enghraifft, arweiniodd pryderon a godwyd gan Aelod Cynulliad ym mis Ionawr 2002 at gynhyrchu papur ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor ar drosglwyddo tir ar gyfer Canolfan Mileniwm newydd Cymru.

(iii) Gwaith penodol wedi ei wneud ar gais cyrff archwiliedig. Er enghraifft, gofynnir i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar fy rhan, ardystio nifer gynyddol o geisiadau a gyflwynir i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan gyrff cyhoeddus wedi eu noddi gan y Cynulliad o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglenni newydd a gefnogir gan gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd; ac

(iv) Ymchwiliadau a wneir ar gais Gweinidogion neu uwch swyddogion fel arfer i roi barn annibynnol a gwrthrychol ar faterion penodol y maent yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, gofynnwyd i mi yn ddiweddar gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adolygu costau amcangyfrifedig ailstrwythuro GIG Cymru. Cyn derbyn ceisiadau o'r fath, ystyriaf yr amodau gorchwyl yn ofalus i sicrhau na fyddant yn peryglu gwaith yn y dyfodol ac na chaf fy nhynnu i mewn i faterion datblygu polisi, sydd y tu allan i'm pwerau statudol.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – Datblygiad staff**

13. Y ffactor allweddol wrth gynnal a gwella safon yr allgynhyrchion yw ansawdd y bobl a gyflogir ar aseiniadau archwilio a'r hyfforddiant a ddarperir. Er mwyn archwilio 33 o gyfrifon y flwyddyn, gweithredu'r rhaglen gwerth am arian ac ymgymryd ag ystod eang o wasanaethau archwilio a chefnogi eraill er mwyn darparu gwasanaeth archwilio o'r radd flaenaf, mae angen i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru allu recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel. Mae hwn yn her ar adeg pan fo cystadleuaeth aruthrol am staff cyfrifo o safon uchel a staff arbenigol eraill ar draws yr economi yn gyffredinol. Er enghraifft, rhagwelodd Adolygiad Cyflogaeth yr IRS, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2002, fod disgwyl i gyflogau cyfrifo yn y sector cyhoeddus godi 6.9 y cant yn 2002.

14. Nid cyflog yw'r unig ffactor wrth bennu dewis gyrfa, a gall archwiliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gynnig ystod ddiddorol o waith i ddarpar recriwtwyr a chyfleoedd i wneud cyfraniad uniongyrchol i waith y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, erys cyflog yn rhan bwysig o unrhyw becyn ac nid oes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw opsiwn ond aros o leiaf o fewn cyrraedd i'w phrif gystadleuwyr.

15. Mae'r ffactorau uchod yn berthnasol hefyd i gyfrifoldebau ehangach y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y Deyrnas Unedig ac fe'u derbyniwyd gan Gomisiwn Cyfrifon Cyhoeddus Ty'r Cyffredin mewn perthynas ag ariannu gwaith y Swyddfa yn 2003-04 ar gyfer Senedd San Steffan.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – Offer a swyddfeydd**

16. Mae'n bwysig bod staff yn cael yr offer cywir i ddelio â newidiadau yn yr amgylchedd archwilio sy'n deillio o gyflymder cynyddol y newid technolegol a llywodraeth electronig. Yn ddiweddar, buddsoddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn technoleg newydd i ategu ei gweithrediadau archwilio ariannol ond mae angen buddsoddiad mawr parhaus mewn caledwedd, meddalwedd a hyfforddiant er mwyn sicrhau y gellir ateb heriau cynyddol archwilio o fewn amgylchedd yr 21ain ganrif.

17. Mae'r brydles ar adeilad presennol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghaerdydd ar fin dod i ben. Mae'r adeilad hwnnw yn rhy fach yn awr i gynnwys yr holl staff sydd eu hangen i gyflawni fy rhaglen waith, sydd wedi ehangu'n sylweddol ers 1999. Bydd y staff felly yn symud i adeilad newydd yn yr ychydig wythnosau nesaf. Rwyf wedi gallu cynnwys costau unigol y symud yn yr arian sydd ar gael ar gyfer 2002-03 ond bydd angen i'r amcangyfrif ar gyfer 2003-04 adlewyrchu cost yr adeilad mwy o faint sydd ychydig yn uwch. At ei gilydd mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o £84,000 y gallaf gyfrannu tua 80 y cant ato sy'n cynrychioli cyfran y gwaith a wneir gan y swyddfa honno ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru[1].

[1] Nodir manylion pellach am y symud i adeilad newydd yn fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio dyddiedig 19 Chwefror 2002.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – Newidiadau i'r maes archwilio**

18. Bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2002 yn gweld cynnydd yng Nghyllideb Bloc Cymru o £9.7 biliwn yn 2002-03 i £12 biliwn yn 2005-06. Yn ogystal, bydd lefelau cynyddol o wariant yn sgîl darparu arian Amcan Un wrth i fwy o brosiectau ddechrau. Bydd angen i'r gwariant ychwanegol sy'n deillio o'r mesurau cyllidebol hyn gael eu harchwilio er mwyn sicrhau bod Cymru yn sicrhau gwerth priodol am arian a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at ddibenion rheolaidd a phriodol.

19. Caiff GIG Cymru ei ailstrwythuro ym mis Ebrill 2003. Bydd y sefydliadau newydd a'r ffyrdd newydd o weithio yn cymryd peth amser i ddod i drefn ond mae'n hanfodol peidio ag esgeuluso'r gofyniad am reolaeth ariannol, rheolaeth gorfforaethol a gwerth am arian priodol. Bydd gennyf gyfrifon newydd i'w harchwilio hefyd o 2003-04 gan gynnwys cyfrif cryno y 22 o fyrddau iechyd lleol a chyfrifon Canolfan Iechyd Cymru ac Asiantaeth Comisiynu'r Gwasanaethau Iechyd Canolog. Yn ystod 2003-04, bydd yn rhaid i mi archwilio cyfrif cryno cau y pum awdurdod iechyd hefyd.

20. Bydd y gwariant yr aeth yr Arolygiaeth Safonau Gofal iddo yn cael ei gynnwys yng nghyfrif adnoddau'r Cynulliad o 2002-2003. Byddaf yn cwblhau fy archwiliad o'r cyfrif hwnnw yn ystod 2003-04. Daethpwyd â'r Arolygiaeth ynghyd ar 1 Ebrill 2002 o'r sector awdurdod lleol. Mae ei staff yn gweithredu ymhob rhan o Gymru gan ddefnyddio amrywiaeth o weithdrefnau ariannol a etifeddwyd na chawsant eu cysoni eto.

21. Nod y Trysorlys yw cynhyrchu cyfres archwiliedig o gyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2005-06. Byddaf yn archwilio cyfrif cyfatebol Llywodraeth Gyfan Cymru a gynhyrchir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03, bydd y cyfrif yn cynnwys cyfuniad o ganlyniadau ariannol y Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol, awdurdodau iechyd a chyrff cyhoeddus noddedig. Mewn blynyddoedd dilynol caiff y ffin ei hehangu i ymgorffori ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Felly, mae'r gwaith hwn yn debygol o fynd yn fwy cymhleth yn y blynyddoedd i ddod.

22. Bydd angen i mi barhau i ddarparu ymatebion ystyriol i ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad ac eraill. Mae hwn yn waith o bwys sy'n parhau i dyfu, yn rhannol oherwydd ymwybyddiaeth gyhoeddus gynyddol o'm gwaith a gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Yn 2001-02, derbyniais 54 o lythyrau yn galw am ymateb cadarnhaol – cynnydd o 50 y cant ar y flwyddyn flaenorol, ac mae'r duedd hon yn cael ei chynnal yn y flwyddyn bresennol hyd yma.

23. Bydd y newidiadau hysbys i'r maes archwilio a grynhowyd uchod yn arwain at yr angen i wneud mwy o waith i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, ac felly mae angen ei ystyried yng nghyd-destun fy nghais am adnoddau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Cais am adnoddau**

24. Er gwaethaf y pwysau o ran costau a grëwyd gan y ffactorau ym mharagraffau 13 i 23 uchod, rwyf wedi gallu gwneud rhai arbedion effeithlonrwydd – yn arbennig drwy ddefnyddio'r dechnoleg archwilio newydd – a gallaf gadw fy nghais am adnoddau i £2,545,000 – cynnydd o £177,000 ar y ddarpariaeth ar gyfer 2002-03. Mae hyn yn gyfystyr â gofyniad arian parod net o £2,518,000.

25. Mae'r cais hwn yn cwmpasu'r holl waith y disgwyliaf ei wneud, ac eithrio unrhyw waith penodol a wneir ar gais Gweinidogion y Cynulliad ac uwch swyddogion (gweler paragraff 12(iv) uchod). Mae gwaith ychwanegol o'r fath, wrth ei natur, heb ei gynllunio ac nid yw wedi ei gynnwys yn fy amcangyfrifon blaenorol. At hynny, ni allaf godi ffi benodol am y gwaith hwn gan mai dim ond codi ffioedd am archwilio cyfrifon (ac eithrio cyfrifon a baratoir gan y Cynulliad) a gwaith cysylltiedig y caniateir i mi ei wneud yn ôl Deddf 1998. Am y rhesymau hyn, trefnwyd gwaith o'r fath a wnaed hyd yma yn uniongyrchol gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Talwyd unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o waith o'r fath yn uniongyrchol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ni chânt eu hadlewyrchu yng nghyfrifon a chofnodion ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru.

26. Er budd tryloywder, credaf y dylai cost gwaith o'r fath, yn y dyfodol, gael ei gofnodi yn llyfrau a chofnodion Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn hytrach na chael ei dalu'n uniongyrchol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yr unig ffordd y gellir gwneud hyn o fewn y fframwaith statudol cyfredol yw ychwanegu cost ddisgwyliedig y gwaith hwn at fy nghais am adnoddau. Felly rwyf yn cynyddu fy nghais am adnoddau a'r gofyniad arian parod cyfatebol gan £100,000 yn ychwanegol i £2,645,000 a £2,618,000 yn y drefn honno. Dim ond i dalu cost unrhyw waith ychwanegol y gofynnir i mi ei wneud a thrwy ymgynghori â Grwp Cyllid y Cynulliad a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio y byddaf yn defnyddio'r adnodd 'wrth gefn' ychwanegol hwn. Hoffwn bwysleisio mai newid arfaethedig i ddull ariannu gwaith o'r fath yw hyn ac nid yw'n effeithio ar y symiau sy'n daladwy o gyllideb gyffredinol y Cynulliad.

27. Ceir dadansoddiad o'm Hamcangyfrif ar gyfer 2003-04, gyda nodiadau esboniadol, ar y tudalennau canlynol.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
*Bae Caerdydd*
*Caerdydd*
*CF99 1NA*

*10 Hydref 2002*

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2004

| | **Amcangyfrif ar sail adnoddau 2003-04 £000** | Darpariaeth 2002-03 £000 | Canlyniad 2001-02 £000 | Cyfeirnod Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad o'r cyfrifon | **1,205** | 1,061 | 1,074 | 1 |
| Archwiliad gwerth am arian | **1,300** | 1,195 | 935 | 2 |
| Gwaith archwilio arall | **185** | 167 | 270 | 3 |
| Gwasanaethau proffesiynol, technegol a gwasanaethau eraill | **370** | 344 | 270 | 4 |
| Cyfanswm y treuliau | **3,060** | 2,767 | 2,549 | 5 |
| Incwm ffioedd | **(515)** | (399) | (510) | |
| **CAIS NET AM ADNODDAU** | **2,545** | 2,368 | 2,039 | |
| **Gofyniad arian parod net** | **2,518** | 2,350 | 2,166 | |
| **Cais am adnoddau net gan gynnwys gwaith ychwanegol ar gyfer Gweinidogion ac uwch swyddogion** | **2,645** | Dd/G | Dd/G | 6 |
| **Gofyniad arian parod net gan gynnwys gwaith ar gyfer Gweinidogion ac uwch swyddogion** | **2,618** | Dd/G | Dd/G | 6 |

*Mae'r amcangyfrif yn eithrio cost cyflog yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n daladwy gan y Cynulliad yn uniongyrchol o dan Adran 91 Deddf 1998. Nid yw'r gofyniad arian*

*parod net yn cynnwys costau tybiannol (er enghraifft, dibrisiant) a symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr.*

*Ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol, ni ddisgwylir i'r canlyniad ar gyfer 2002-03 fod yn sylweddol wahanol i'r ddarpariaeth.*

**Nodiadau esboniadol**

1. Mae cost archwilio cyfrifon yn cynnwys y gwaith y mae'n ofynnol i mi ei wneud yn unol â safonau a bennir gan y Bwrdd Arferion Archwilio er mwyn llunio barn ar y cyfrifon a restrir yn Atodiad 1 ar gyfer blwyddyn gyfrif 2002-03. Mae hefyd yn cynnwys gwaith cychwynnol ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04, a thasgau archwilio ariannol eraill.

2. Mae gwaith gwerth am arian yn cynnwys ymgymryd ag archwiliadau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys paratoi nodiadau briffio ar bynciau ad hoc i'r Pwyllgor, cyngor i gleientiaid, monitro gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad ar draws yr ystod lawn o'i swyddogaethau a datblygu fy mlaenraglen gwerth am arian. Ceir manylion pellach am fy ngwaith gwerth am arian hyd yma a'r archwiliadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol yn y memorandwm a gyflwynir ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio.

3. Mae gwaith archwilio arall yn cynnwys cost gwaith rheolaeth gorfforaethol, ymweliadau arolygu i gyrff sy'n cael arian cyhoeddus nas archwilir gennyf fi fy hun a gwaith archwilio ychwanegol a wnaf ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar gais Llywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys cost cynhyrchu fy Adroddiad Cyffredinol blynyddol i Gymru.

4. Mae gwasanaethau proffesiynol, technegol a gwasanaethau eraill yn cynnwys y cymorth a ddarparaf i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer sesiynau tystiolaeth a chyngor ar adroddiadau dilynol, paratoi fy amcangyfrif blynyddol, y gwasanaethau cyfrifo a chadw cyfrifon y mae fy swyddfa yn gofyn amdanynt, cost fy archwilwyr allanol (a benodir gan y Cynulliad) a chostau gweinyddol eraill yr eir iddynt wrth redeg fy swyddfa.

5. O dan Adran 93(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi godi ffi am archwilio cyfrifon pob corff cyhoeddus, ac eithrio'r rheini a baratoir gan y Cynulliad ei hun. Rwyf hefyd yn codi ffi am waith archwilio ariannol arall a wnaf ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r cynnydd ers incwm cyllidebol y llynedd yn bennaf o ganlyniad i ffioedd am waith newydd.

6. Caiff y £100,000 ychwanegol a ychwanegir at y cais am adnoddau a'r gofyniad arian parod cyfatebol ei gynnwys ar sail 'wrth gefn' i dalu cost unrhyw waith ychwanegol a wneir ar gais penodol Gweinidogion neu uwch swyddogion. Dim ond i dalu cost y gwaith hwn y caiff ei ddefnyddio. Mewn blynyddoedd blaenorol trefnwyd gwaith o'r fath yn uniongyrchol gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ni chafodd ei gynnwys fel rhan o amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol.

# Atodiad 1

### Archwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03 y trefnwyd iddynt gael eu cwblhau yn 2003-04

### Cyfrifon a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyfrif adnoddau'r Cynulliad (gweithgareddau craidd)
Cyfrif adnoddau cyfunol
Cyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan
Cadw: Welsh Historic Monuments
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Cyfrif cryno o awdurdodau iechyd Cymru (cyfrif cau)
Cyfrif cryno o ymddiriedolaethau GIG Cymru
Cyfrif cryno o Gronfeydd a ddelir ar ymddiriedolaeth gan gyrff GIG Cymru
Cyfrif Ardrethu Annomestig Cymru
Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad
Proffesiynau Iechyd Cymru [11 cyfrif]

### Cyfrifon a baratoir gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill

Cyngor Celfyddydau Cymru*
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Estyn
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Menter Coedwigaeth Cymru
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru*
Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Comisiynydd GIG Cymru
Bwrdd Croeso Cymru [22 o gyfrifon]

* Bydd cyfrifon Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y ddau gorff hyn yn parhau i gael eu harchwilio gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol a'u gosod gerbron y Senedd a'r Cynulliad.